# **Coleg Cymraeg:**
# pecyn gweithredu

**Annog myfyrwyr i ystyried astudio ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg**

## Beth sydd yn y pecyn hwn?


| | |
|---|---|
| **Deall ein cynulleidfa** | 4 |
| **Rhwystrau ac ysgogiadau** | 7 |
| **Seicoleg ein cynulleidfa** | 11 |
| **Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu** | 18 |
| **Strategaeth negeseuon** | 27 |
| **Canllawiau tôn llais** | 32 |
| **Rôl y Coleg Cymraeg** | 35 |
| **Sianeli allweddol a negeswyr** | 39 |
| **Ymyraethau yn y dyfodol** | 42 |
| **Offer defnyddiol ar gyfer ymyraethau yn y dyfodol** | 48 |
| **Atodiad** | 52 |

## Pam ein bod wedi creu'r pecyn hwn?

Ar hyn o bryd **mae cyfran fawr o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn dewis peidio â dilyn cyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg,** er bod y gallu ganddyn nhw i wneud hynny.

- Mae'r Coleg wedi comisiynu creu'r pecyn hwn i roi **arweiniad a chyngor** i ymarferwyr (e.e., swyddogion cangen y Coleg, staff academaidd, swyddogion hyrwyddo addysg Gymraeg sy'n bresennol ar ddiwrnodau agored prifysgolion ayb.). Mae'r ymarferwyr hyn yn awyddus i annog myfyrwyr sy'n agosáu at ddiwedd blwyddyn 12, blwyddyn 13 a dysgwyr mewn colegau addysg bellach i ystyried astudio ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Myfyrwyr ar y pwynt hwn yn eu hastudiaethau yw'r ffocws gan eu bod ar fin/wrthi'n gwneud penderfyniadau am brifysgol. Mae ceisiadau ar gyfer rhai graddau (e.e., meddygaeth) yn cael eu gwneud yn agos at ddechrau blwyddyn 13, felly efallai y bydd angen ymgysylltu â'r myfyrwyr hyn ynghynt.
- Efallai mai canlyniad y gwaith hwn fydd bod mwy o fyfyrwyr yn aros yng Nghymru i fynd i'r brifysgol, ond nid dyma brif bwrpas y pecyn hwn a gellid ei ystyried yn effaith ymylol gadarnhaol.

## Beth sydd wedi llywio'r pecyn hwn?

- Mae'r Coleg Cymraeg wedi bod yn gweithio gydag asiantaeth newid ymddygiad o'r enw Claremont i ddeall pam y gallai myfyrwyr ysgol/coleg yng Nghymru fod yn petruso rhag dilyn dosbarthiadau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:**

- Adolygu gwaith y Coleg hyd yma, presenoldeb ar-lein a dogfennau cysylltiedig (gweler Atodiad 1)
- Cyfweld â rhanddeiliaid, gan gynnwys ein swyddogion hyrwyddo addysg Gymraeg
- Adolygu'r llenyddiaeth seicolegol sy'n ymwneud â phobl yn eu harddegau yn gwneud penderfyniadau (gweler Atodiad 2)
- Cynnull dwy sesiwn cyd-ddylunio gyda'r gynulleidfa darged a phartïon perthnasol eraill.

Mae cyfuniad gofalus o'r ffynonellau hyn wedi llywio'r argymhellion yn y pecyn hwn.

# Canllaw cyfeirio cyflym — Proffil y gynulleidfa:

## Y gofidiwr

**Mae'r myfyriwr hwn yn ofidiwr naturiol ac efallai ei fod yn llai hyderus yn ei alluoedd yn y Gymraeg. Mae'n tueddu i fynd yn naturiol tuag at bethau sy'n teimlo'n ddiogel, er enghraifft aros yng Nghymru i fynd i'r brifysgol.**

**Thema**
Angen lleihau ansicrwydd

**Gyrwyr**
- Tawelu meddwl mewn ffordd gadarnhaol
- Gwybodaeth ddiamwys glir
- Help i ragweld y dyfodol.

**Negeseuon lefel uchaf**
Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol.

**Negeseuon eilaidd**
Gallwn eich helpu i ddewis y brifysgol gywir a'r cwrs cywir i chi.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol yn rhywbeth i bawb sydd eisiau byw a gweithio yng Nghymru.

## Y person uchelgeisiol

**Mae'r myfyriwr hwn yn uchelgeisiol, yn hyderus ac mae ganddo syniad eithaf da o'r hyn y mae am ei wneud yn y brifysgol a thu hwnt. Mae'n tueddu i fod yn or-hyderus.**

**Thema**
Cefnogi fy ngyrfa yn y dyfodol

**Gyrwyr**
- Llwyddiant
- Camau bach >> darlun mawr.

**Negeseuon lefel uchaf**
Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol.

**Negeseuon eilaidd**
Mae llawer o gyrsiau prifysgol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.

Os ydych chi'n bwriadu byw a gweithio yng Nghymru, astudiwch drwy gyfrwng y Gymraeg. / Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol yn rhywbeth i bawb sydd eisiau byw a gweithio yng Nghymru ar ryw adeg yn y dyfodol.

## Dilynwr y Dorf

**Mae'r myfyriwr hwn yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y rhai o'i gwmpas, naill ai mewn ffordd ymwybodol neu heb yn wybod iddo. Nid yw'n ystyried ei hunan na'i ffrindiau fel y math o bobl fyddai'n dewis modiwlau cyfrwng Cymraeg.**

**Thema**
'Math' penodol o berson

**Gyrwyr**
- Agwedd gymdeithasol y brifysgol
- Barn y rhai o'i gwmpas
- Gweithredoedd pobl debyg.

**Negeseuon lefel uchaf**
Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol.

**Negeseuon eilaidd**
Mae llawer o gyrsiau prifysgol cyfrwng Cymraeg ar gael hefyd.

Mae llawer o bobl sy'n bwriadu byw a gweithio yng Nghymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

# DEALL EIN CYNULLEIDFA

**Mae'r adran hon yn edrych ar sut y gallwn wella ein dealltwriaeth o'r gynulleidfa darged.**

– Mae tri phrif bwynt i ni ystyried:


1. Rhaid i ni fynd y tu hwnt i'r siambr atsain a dechrau siarad â phobl nad ydyn nhw eisoes yn ymgysylltu â'r Coleg mewn ffordd organig
2. Dydyn ni ddim eisiau ychwanegu at sŵn bywydau prysur ein myfyrwyr. Maen nhw eisoes wedi'u gorlwytho â gwybodaeth pan maen nhw'n cyrraedd y brifysgol
3. Nid yw ein cynulleidfa yn unffurf ac mae angen i ni deilwra ein dull er mwyn gweddu i'r gwahanol segmentau yn ein cynulleidfa.

**Deall ein cynulleidfa:**

# Ble mae ein cynulleidfa darged?


Mae ein cynulleidfa darged yn nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn y chweched dosbarth: hanner ffordd drwy flwyddyn 12, neu ym mlwyddyn 13.

Yn wahanol i hanner eu cyfoedion, maen nhw o ddifri'n ystyried mynd i brifysgol yng Nghymru.



Deall ein cynulleidfa:

# Pryd, ble, a phwy sy'n tarfu ar y daith?




Sianeli Anffurfiol

Sianeli ffurfiol

# RHWYSTRAU AC YSGOGIADAU

**Mae'r adran hon yn crynhoi'r holl rwystrau a gyrwyr (ysgogwyr) sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged yn ei chyfanrwydd.**

Rhwystrau ac ysgogiadau:

# Llenyddiaeth bresennol

**Amlygodd llenyddiaeth bresennol lawer o resymau pam nad yw myfyriwr efallai am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol. Cafodd rhwystrau pellach eu codi yn ein sesiynau cyd-ddylunio, nad oedd cyfeiriad atyn nhw yn y llenyddiaeth:**

1. Mae myfyrwyr wedi'u gorlwytho â gwybodaeth: mae'n anodd iddyn nhw ymdopi â mwy.
2. Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhywbeth ar gyfer yr ysgol, nid y byd go-iawn.
3. Mae dulliau o ddenu myfyrwyr Cymru yn teimlo'n rhy amhersonol.
4. Mae ansicrwydd yn bwydo i mewn i bryder cyffredinol am y brifysgol.

Rhwystrau ac ysgogiadau:

# Rhwystrau

| Rhwystrau o ran gallu | Rhwystrau o ran cyfle | Rhwystrau o ran ysgogiad |
|---|---|---|
| • Diffyg hyder yn eu sgiliau iaith yn y Gymraeg (ac mae llwyddiant academaidd yn cyd-fynd yn agos â hyfedredd iaith).<br>• **Mae myfyrwyr wedi'u gorlwytho â gwybodaeth: mae'n anodd iddyn nhw ymdopi â mwy.** | • Ni ellir darparu pob cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob prifysgol.<br>• Norm cymdeithasol: Mae cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg gartref.<br>• Diffyg ymwybyddiaeth – cred bod yna ddiffyg hyblygrwydd o ran newid rhwng ieithoedd neu i ddilyn rhai dosbarthiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a rhai drwy gyfrwng y Saesneg.<br>• Pryderon am argaeledd adnoddau yn y Gymraeg, yn enwedig mewn rhai pynciau technegol (e.e., Deintyddiaeth, Peirianneg).<br>• Diffyg ymwybyddiaeth – nid yw UCAS yn tynnu sylw at gyrsiau yn y Gymraeg.<br>• Nid oes modiwlau neu unedau llai ar gael, e.e., Ysgrifennu CV yn Gymraeg.<br>• Gall polisïau sefydliadol ac arferion addysgu prifysgolion ffafrio'r Saesneg.<br>• Diffyg dealltwriaeth ynghylch sut olwg fydd ar amserlen neu seminar. | • Canfyddiad bod eu sgiliau iaith yn y Saesneg yn gryfach na'u sgiliau iaith yn y Gymraeg, felly bydd dosbarthiadau Saesneg yn haws.<br>• Cred bod astudiaethau academaidd pellach yn fwy tebygol o fod drwy gyfrwng y Saesneg.<br>• Mae nifer fach yn teimlo bod eu sgiliau Cymraeg yn ddigonol fel nad oes 'angen' iddyn nhw astudio yn y Gymraeg yn y brifysgol.<br>• Cred bod modd cadw sgiliau iaith yn y Gymraeg drwy ffyrdd eraill, e.e. ffrindiau, yr eglwys/capel, grwpiau cymdeithasol, teulu.<br>• Beth mae fy ffrindiau'n ei wneud? Beth am fy ffrindiau newydd? Pwy sydd yn fy nosbarth i?<br>• Dyw'r Gymraeg ddim yn 'cŵl'/Dwi ddim am fod yn wahanol i bawb arall.<br>• **Mae'r Gymraeg yn rhywbeth ar gyfer yr ysgol, nid y byd go-iawn.**<br>• **Dulliau o ddenu myfyrwyr Cymru yn teimlo'n rhy amhersonol.**<br>• **Ansicrwydd yn bwydo i mewn i bryder cyffredinol am y brifysgol.** |

*Ychwanegwyd y rhwystrau mewn print trwm ar ôl sesiynau cyd-ddylunio

**Rhwystrau ac ysgogiadau:**

# Gyrwyr

| Gyrwyr o ran gallu | Gyrwyr o ran cyfle | Gyrwyr o ran ysgogiad |
|---|---|---|
| • Myfyrwyr rhugl yn llawer mwy tebygol o gymryd rhai credydau yn y Gymraeg a pharhau gyda hynny. | • Mae rhai yn adrodd eu bod yn cael mwy o sylw gan ddarlithwyr, tiwtoriaid ayb. mewn modiwlau Cymraeg, oherwydd dosbarthiadau o faint llai.<br>• Mae modiwlau craidd cyfrwng Cymraeg Gymraeg yn eich galluogi i gwrdd â phobl newydd.<br>• Cynlluniau cofrestru awtomatig ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn rhai prifysgolion.<br>• Cymhellion neu ysgoloriaethau ar gael. | • Mae iaith yn rhan o fy hunaniaeth gymdeithasol (89% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a fu'n rhan o astudiaeth gan WISERD). Yn bwydo i mewn i deimlad o fod eisiau cadw mewn cysylltiad trwy grwpiau cymdeithasol Cymraeg ayb.<br>• Y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer gyrfa yn y dyfodol (dywedodd 73% hyn yn Arolwg Agweddau Myfyrwyr 2023), yn enwedig yng ngogledd Cymru.<br>• Canfyddiad bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.<br>• Canfyddiad bod swyddi i siaradwyr Cymraeg yn talu'n well.<br>• Dwyieithrwydd yn cael ei ystyried yn ased.<br>• Teimla rhai sy'n fwy cyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg y byddant yn debygol o gael marciau uwch o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg am eu bod yn gallu mynegi eu hunain yn well drwy gyfrwng y Gymraeg na'r Saesneg. |

# SEICOLEG EIN CYNULLEIDFA

**Seicoleg ein cynulleidfa:**

# Damcaniaethau a dynnwyd o'r llenyddiaeth:

## 1

Mae canfyddiad bod 'math' penodol o berson yn dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2

Efallai y bydd myfyrwyr yn dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn ddiofyn oherwydd bod mwy o sicrwydd am yr hyn fydd yn rhan o'r cwrs.

## 3

Mae llawer o fyfyrwyr yn credu y gallai astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg fod o fudd i'w gyrfa yng Nghymru yn y dyfodol.

Seicoleg ein cynulleidfa:

# 1. 'Math' penodol o berson

## Tynnodd ein gwaith sylw at stereoteip o fyfyriwr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol.

Daw hyn â stigma penodol. Gan ddyfynnu cyfranogwr yn y cynllun cyd-ddylunio: 'Dyw Cymraeg ddim yn cŵl iawn'.

Buom yn edrych ar berthnasedd dylanwad cyfoedion a dylanwad canfyddedig cyfoedion ar wneud penderfyniadau, h.y. os nad yw 'pobl fel fi' yn dangos yr ymddygiad, a fydda i'n dal i'w wneud?









Seicoleg ein cynulleidfa:

# 1. 'Math' penodol o berson

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?

**Mae dylanwad a chymeradwyaeth cyfoedion yn cymylu barn**

- Pan mae oedolion ifanc yn eu harddegau, mae eu penderfyniadau'n dod yn fwyfwy annibynnol wrth ddylanwad oedolion, ac yn lle hynny daw cyfoedion yn fwy dylanwadol arnynt
- Mae penderfyniadau pobl ifanc yn cael eu dylanwadu'n arbennig gan ffactorau emosiynol a chymdeithasol e.e., pan fyddant gyda chyfoedion
- Mae ymddygiadau risg uchel yn fwy tebygol o ddigwydd pan mae cymeradwyaeth gan gyfoedion yn wobr bosibl.

**Mae dylanwad cyfoedion a norms cymdeithasol yn bwysig iawn wrth wneud penderfyniadau yn y brifysgol**

- Gall yr angen i gadw perthnasoedd cymdeithasol wneud i fyfyrwyr flaenoriaethu dewisiadau cyfoedion dros eu buddiannau academaidd eu hunain
- Gall dylanwad cyfoedion annog neu atal presenoldeb yn y brifysgol, yn seiliedig ar statws academaidd canfyddedig y grŵp
- Mewn rhanbarthau lle y mae aros yn agos at gartref yn norm cymdeithasol, mae cyfoedion yn dylanwadu'n drwm ar ddewis myfyrwyr i fynd i brifysgolion cyfagos
- Mae myfyrwyr sydd mewn cysylltiad â chyfoedion gwybodus sydd â rhwydwaith dda yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu i ddewis prifysgolion uchel eu bri  neu rai sy'n fanteisiol yn strategol
- Mae dewisiadau tai myfyrwyr yn cael eu dylanwadu'n fawr gan yr awydd i aros yn agos at ffrindiau
- Mae myfyrwyr prifysgol blwyddyn gyntaf yn arbennig o agored i ddylanwad cyfoedion, ac maen nhw'n aml yn blaenoriaethu cyfeillgarwch wrth wneud penderfyniadau academaidd fel dewis modiwlau.

**Mae myfyrwyr prifysgol blwyddyn gyntaf yn arbennig o agored i ddylanwad cyfoedion**

Mae dyfyniadau perthnasol yn Atodiad 2

**Seicoleg ein cynulleidfa:**

# 2. Yr angen i leihau ansicrwydd

**Mae ein gwaith yn awgrymu bod myfyrwyr yn fwy tebygol o ddewis cyrsiau Saesneg yn ddiofyn er mwyn gostwng eu lefel gyffredinol o ansicrwydd wrth wneud penderfyniadau.**

Mae llawer o elfennau amwys a phethau nad yw myfyrwyr yn gwybod digon amdanyn nhw wrth ystyried dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys: A fydda i'n ddigon da / a fydda i'n cael yr help sydd ei angen arnaf? A allaf newid i gwrs Saesneg os ydw i'n anhapus? Sut olwg fydd ar fy amserlen? Sut beth yw darlithoedd cyfrwng Cymraeg? A yw fy nghwrs hyd yn oed ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?

Edrychwyd ar berthnasedd theori lleihau ansicrwydd wrth i bobl ifanc wneud penderfyniadau...

**...myfyrwyr yn fwy tebygol o ddewis cyrsiau Saesneg yn ddiofyn**

Seicoleg ein cynulleidfa:

# 2. Yr angen i leihau ansicrwydd

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?


### Mae bodau dynol wedi'u cyflyru i osgoi sefyllfaoedd ansicr

- Wrth chwilio am eitem ar-lein, mae pobl yn tueddu i ddewis yr opsiwn sydd â sgôr gyfartalog dros yr opsiwn heb unrhyw raddfa
- Mae prynwyr tai yn aml yn dewis morgais cyfradd sefydlog dros opsiwn cyfradd addasadwy, hyd yn oed pan fydd yr olaf yn costio llai
- Mae theori lleihau ansicrwydd wedi'i chynnwys mewn gwahanol ddewisiadau dylunio, gyda'r nod o gynyddu teimladau o sicrwydd:

### Mae osgoi ansicrwydd hyd yn oed yn fwy hanfodol i bobl ifanc

- Yn eu harddegau, gall mwy o bryder leihau goddefgarwch person tuag at ansicrwydd – sy'n arbennig o berthnasol i'r cyfnod cyn mynd i'r brifysgol
- Mae gan bobl ifanc sydd â goddefgarwch isel o ansicrwydd hefyd gysylltiadau agosach â gorbryder, iselder ac OCD
- Gall ymatebion emosiynol a gwybyddol i sefyllfaoedd ansicr ysgogi pobl ifanc i chwilio am opsiynau cyfarwydd neu ddiogel yn hytrach na risgio'r cyfarwydd ar gyfer yr hyn nad ydyn nhw'n gwybod amdanyn nhw.




**Gall ymatebion emosiynol a gwybyddol i sefyllfaoedd ansicr ysgogi pobl ifanc i chwilio am opsiynau cyfarwydd neu ddiogel yn hytrach na risgio'r cyfarwydd ar gyfer yr hyn nad ydyn nhw'n gwybod amdanyn nhw**

Mae dyfyniadau perthnasol yn Atodiad 2

Seicoleg ein cynulleidfa:

# 3. Cefnogi fy ngyrfa yn y dyfodol

## Canfu ein gwaith fod myfyrwyr ysgol a phrifysgol yn teimlo y byddai cymryd modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg o fudd i'w gyrfa yng Nghymru yn y dyfodol: yn ariannol ac o ran cynyddu cyfleoedd.

Mae myfyrwyr yn tueddu i gyfeirio at yrfaoedd yn y sector cyhoeddus, yn enwedig yn y llywodraeth a'r sector gofal iechyd. Ymhlith y swyddi sy'n cael llai o ystyriaeth y mae addysg, gwasanaethau brys, y cyfryngau, y gyfraith, twristiaeth a'r diwydiannau creadigol.

Buom yn edrych ar a yw pobl ifanc yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu camau yn y dyfodol a sut maen nhw'n gwneud y penderfyniadau hynny...

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?

**Gall pobl ifanc yn eu harddegau ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau hirdymor...**

- Mae llawer o ymchwil yn ymwneud ag oedolion a gwneud penderfyniadau hirdymor, a gall y rhain gael eu dylanwadu gan ffactorau fel llesgedd, diffyg hunanreolaeth, gorhyder, rhagfarn bresennol, disgowntio amserol, boddhad byrdymor a byrbwylledd.
- Mae pobl ifanc yn dal i ddatblygu'r cortecs cyndalcennol, sy'n rheoli cynllunio, meddwl tymor hir a chanlyniadau.
- Mae pobl ifanc yn arddangos sensitifrwydd uwch i gael eu gwobrwyo oherwydd y rhyngweithio rhwng y cortecs cyndalcennol a'r striatwm; maen nhw'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar fuddion byrdymor.

**Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc yn meddwl am eu rhagolygon gyrfa yn y dyfodol**

- Mae ymchwil yn dangos bod rhagolygon gyrfa yn dylanwadu'n sylweddol ar ddewisiadau myfyrwyr ynghylch yr hyn maen nhw am ei astudio yn y brifysgol, ond yn aml mae myfyrwyr yn cael eu camarwain o ran cyflogau a galw.
- Mae myfyrwyr sydd â lefelau uwch o gymhelliant cynhenid, hunan-gred, boddhad bywyd a dyfalbarhad i gyd yn cael eu hysgogi yn arbennig i ddewis cyrsiau prifysgol sy'n cyd-fynd â dyheadau gyrfa.
- Mae niwro-astudiaethau yn dangos y gall pobl ifanc berfformio cystal ag oedolion mewn rhai tasgau penderfynu, yn enwedig pan fyddant yn cael eu cymell gan wobrau fel arian.


# SEGMENTU'R GYNULLEIDFA A CHROMLIN MABWYSIADU

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Segmentu'r gynulleidfa

**Rydym wedi cynhyrchu tri segment o ran cynulleidfa o fyfyrwyr, ac yn ein barn ni maen nhw'n hanfodol i'r prosiect hwn: Dilynwr y Dorf, y Gofidiwr a'r Person Uchelgeisiol.**

Nid yw'r segmentau hyn yn hollol annibynnol wrth ei gilydd, ond maen nhw'n rhoi darlun o dueddiadau allweddol ein cynulleidfa darged.



**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Y Gofidiwr

**Thema**
Yr angen i leihau ansicrwydd

**Proffil y gynulleidfa**
Mae'r myfyriwr hwn yn ofidiwr naturiol ac efallai ei fod yn llai hyderus yn ei allu o ran y Gymraeg. Mae'n gwyro tuag at bethau sy'n teimlo'n ddiogel, er enghraifft aros yng Nghymru i fynd i'r brifysgol.

**Gyrwyr**
- Tawelu meddwl mewn ffordd gadarnhaol
- Gwybodaeth ddiamwys glir
- Help i ragweld y dyfodol.

**Sylwadau a ddaeth o'r sesiwn gyd-ddylunio**

Rydych chi'n gweld bod mwy o adnoddau Saesneg yn bodoli na rhai Cymraeg, p'un ai a ydych chi ar YouTube neu unrhyw blatfform arall. A fydd hynny'n broblem pan fyddaf yn symud ymlaen i astudio yn y brifysgol? Dwi ddim yn siŵr.
**—Myfyriwr**

Efallai fod hyn yn addas i mi, fel Gofidiwr. Dydw i ddim yn gwybod beth rydw i eisiau ei wneud, dydw i ddim y person mwyaf hyderus, ac er fy mod i'n meddwl fy mod i eisiau gweithio ym myd addysg, dwi dal ddim yn gwybod cant y cant beth rydw i eisiau ei wneud yn y dyfodol.
**—Myfyriwr Addysg Bellach**

Ie, map o Gymru, a phwyntio allan lle mae pob prifysgol. Dwi'n meddwl bod pethau fel yna yn werthfawr iawn i'r gofidiwr achos mae'n ei gwneud yn glir bod opsiynau lleol i mi.
**—Myfyriwr**

Rwy'n dod ar draws y gofidiwr yn aml. Mae'n nhw'n poeni am brifysgol ac yn teimlo'n amharod ar ei gyfer.
**—Athro/Athrawes**

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Y Person Uchelgeisiol

**Thema**
Cefnogi fy ngyrfa yn y dyfodol

**Proffil y gynulleidfa**
Mae'r myfyriwr hwn yn uchelgeisiol, yn hyderus ac mae ganddo syniad eithaf da o'r hyn y mae am ei wneud yn y brifysgol a thu hwnt. Mae'n tueddu i fod yn or-hyderus.

**Gyrrwyr**
- Llwyddiant
- Camau bach >> darlun mawr.

**Sylwadau a ddaeth o'r sesiwn gyd-ddylunio**

Rwy'n teimlo y gallai'r [Coleg] wneud fideos gyda mwy o wybodaeth, yn enwedig i'r Bobl Uchelgeisiol sydd eisiau'r holl wybodaeth.
**-Myfyriwr**

Mae gennym hefyd rai ffrindiau sydd eisiau llwyddo. Llwyddiant yw popeth iddyn nhw, maen nhw'n gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud, maen nhw'n gwybod y camau y mae angen iddyn nhw eu cymryd nesaf. Gall fod yn frawychus i rywun fel fi.
**-Myfyriwr Addysg Bellach**

Rwy'n credu bod y Bobl Uchelgeisiol yn anodd... mae llawer o fodiwlau prifysgol wedi'u cynllunio i fod yn boblogaidd iawn, yn hytrach nac er mwyn ceisio codi uchelgeisiau pobl.
**-Darlithydd**

Mae'n debyg bod y person hwn eisiau clywed am swyddi, arian... tuag at beth y mae'n anelu?
**-Myfyriwr**

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Dilynwr y Dorf

**Thema**
'Math' penodol o berson

**Proffil y gynulleidfa**
Mae'r myfyriwr hwn yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y rhai o'i gwmpas, naill ai mewn ffordd ymwybodol neu heb yn wybod iddo. Nid yw'n ystyried ei hun na'i ffrindiau fel y math o bobl fyddai'n dewis modiwlau cyfrwng Cymraeg.

**Gyrwyr**
- Agwedd gymdeithasol y brifysgol
- Barn y rhai o'u cwmpas
- Gweithredoedd pobl debyg.

## Sylwadau a ddaeth o'r sesiwn gyd-ddylunio

Rwy'n credu y byddai Dilynwyr y Dorf yn gweld cynnwys ar Instagram. Mae angen iddyn nhw fynd trwy Instagram a chael eu hysbrydoli gan yr hyn maen nhw'n ei weld.
**-Myfyriwr**

Y prif bwynt yw, fel rhywun sy'n byw yng Nghaerdydd, dyw lot o fy ffrindiau i ddim yn siarad Cymraeg. Mae mynd i'r brifysgol i wneud cwrs Cymraeg a siarad a dysgu drwy'r Gymraeg yn wastraff amser.
**-Myfyriwr**

Dwi'n meddwl mai'r pwynt pwysicaf i fi oedd tynnu [myfyrwyr prifysgolion Cymraeg eu hiaith] i ffwrdd o'u grwpiau. Dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig eu cael nhw ar y cwrs Cymraeg cyn iddyn nhw ddechrau dosbarthiadau a chwrdd â gormod o bobl.
**-Swyddog Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

I rai, gallai hyn olygu bod eisiau aros yng Nghymru a bod o fewn cymuned Gymraeg, ac mae hynny'n bwysig i lawer o'n disgyblion hefyd.
**-Athro/Athrawes**

Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:

# Adnabod y gynulleidfa darged

**Gall fod yn anodd gwybod pwy sydd ym mha segment o'n cynulleidfa darged ac mewn rhai achosion efallai y bydd angen dyfalu. Dyma ambell syniad cychwynnol:**

## Cyflwyniadau ysgol

→

Gallai annog myfyrwyr i gwblhau arolwg agwedd ymlaen llaw helpu i ddynodi pwy sydd yn y gynulleidfa. Pan nad yw hyn yn bosibl, gellid enwi grwpiau bach ar gyfer pob segment (e.e., gyrfaoedd yng Nghymru) a gallai myfyrwyr ddewis pa sesiynau i fynd iddynt.

## Y cyfryngau cymdeithasol

→

Gellir creu cynnwys ar gyfer pob segment. Os yw myfyriwr yn ymgysylltu â'r cynnwys hwnnw (h.y., uniaethu â segment penodol a theimlo ei fod yn rhan ohono) gellid ei aildargedu â chynnwys tebyg.

## Sgyrsiau un-i-un

→

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n briodol gofyn cwestiwn arweiniol i fyfyriwr er mwyn penderfynu ar ei segment craidd, e.e., sut wyt ti'n teimlo am fynd i'r brifysgol? Oes gen ti unrhyw syniadau am yr hyn y gallet ti ei wneud ar ôl y brifysgol? Pwy (neu beth) sy'n dylanwadu ar dy benderfyniadau?

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Cromlin mabwysiadu

**Buom yn edrych ar fodelau mabwysiadu amrywiol er mwyn ystyried pa un o'n segmentau cynulleidfa a allai fod y mwyaf agored i'n negeseuon ac felly'r hawsaf i'w symud.**

**Roedd y modelau hyn yn cynnwys:**

- Lledaeniad y Model Arloesi
- Cylch Bywyd Mabwysiadu Technoleg
- Matrics Ymdrech Gwerth
- Model Derbyn Technoleg
- Model 'crëwyr blas'(Tastemakers) Karthik Suresh
- Dull Mannau Llachar (Bright Spots) Heath a Heath.


**Daeth tair gwers graidd i'r amlwg o'r ymchwil:**

- Mae rhai rhannau o'n cynulleidfa yn rhai na ellir eu hennill; ni ddylem ymdrechu'n galed iawn i geisio gwneud hynny
- Mae dull fesul cam yn ddoeth ac yn adlewyrchu realiti: gosod prif ffocws, datgloi'r lleill yn ddiweddarach
- Efallai y bydd bwlch neu oedi rhwng ennill segmentau haws a mabwysiadu torfol.

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Cromlin mabwysiadu

Mae ein cromlin mabwysiadu yn dangos dull fesul cam o annog myfyrwyr i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg:




**Eiriolwyr**
Nid oes angen ymyrraeth bellach gan y Coleg ar y grŵp hwn; efallai eu bod hefyd yn ddilynwyr presennol

**Y darbwylladwy**
Mae'r grŵp hwn yn symudol iawn, efallai y bydd angen un neu ddau ddarn arall o dystiolaeth arnyn nhw

**Y mwyafrif cynnar**
Bydd y grŵp hwn yn synhwyro symudiad tuag at yr ymddygiad newydd ac yn ceisio cael cadarnhad o hynny


**Y mwyafrif hwyr**
Bydd y grŵp hwn yn symud unwaith y byddant yn teimlo bod newid cymdeithasol wedi bod tuag at yr ymddygiad newydd

**Llusgwyr traed**
Bydd y grŵp hwn yn symud yn ddiofyn, unwaith y bydd norm wedi'i sefydlu

**Segmentu'r gynulleidfa a chromlin mabwysiadu:**

# Cromlin mabwysiadu

Mae Dilynwyr y Dorf yn anos i'w symud na'r segmentau eraill. Mae gwir angen iddyn nhw weld y newid yn y gymdeithas gyfan: 'Mae pobl fel fi yn gwneud hyn'. Efallai y bydd ymyrraeth gychwynnol yn effeithio arnyn nhw mewn ffordd gadarnhaol, e.e. effaith gorlifo, ond ni ddylai'r rhain fod yn brif ffocws:



# STRATEGAETH NEGESEUON

Strategaeth negeseuon:

# Negeseuon allweddol ar gyfer pob segment cynulleidfa

## Mae ein gwaith hyd yn hyn yn awgrymu mai dyma'r negeseuon allweddol a fyddai'n gweithio gyda'n cynulleidfaoedd:

| | Gofidwyr | Pobl Uchelgeisiol | Dilynwyr y Dorf |
|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd gwaith** | | Yn cael eu gyrru gan lwyddiant | |
| **Dosbarthiadau bach** | Mae'n haws gofyn am help | | Yn gorfodi stereoteipiau |
| **Ysgoloriaethau** | | | |
| **Cyfleoedd cymdeithasu** | | | Ffyrdd o wneud ffrindiau |
| **Profiadau llysgenhadon** | Yn fwy perthnasol i Eiriolwyr (y rhai nad oes angen ymyrraeth y Coleg arnyn nhw) | | |
| **Gwella/cynnal sgiliau** | Cymhwysedd i hyder | | |
| **Parhad o'r ysgol** | | Yn canolbwyntio mwy ar y cam nesaf | Ymdeimlad o berthyn |
| **Magu hyder** | Yn lleddfu gorbryder | | |
| **Agor drysau** | | Apiau rhwydweithio | |

Blaenoriaeth uchel

Blaenoriaeth ganolig

Blaenoriaeth isel

Strategaeth negeseuon:

# Negeseuon craidd: Gofidwyr

| | |
|---|---|
| **Negeseuon lefel uchaf** | Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol. |
| **Negeseuon eilaidd** | Gallwn ni'ch helpu chi i ddewis y brifysgol gywir a'r cwrs cywir.<br><br>Mae astudio yn y Gymraeg yn y brifysgol ar gyfer pawb sydd eisiau byw a gweithio yng Nghymru. |
| **Is-negeseuon: yn seiliedig ar fuddion** | Mae dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn defnyddio'r sgiliau rydych chi eisoes wedi'u dysgu yn yr ysgol.<br><br>Mae maint dosbarthiadau llai yn ei gwneud yn haws gofyn am help gan ddarlithydd a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch. |
| **Negeseuon lapio** | Gall mynd i'r brifysgol fod yn amser cyffrous, ond mae'n siŵr bod gennych chi lawer o gwestiynau.<br><br>Mae llawer o wybodaeth ar gael am fynd i'r brifysgol, felly ble rydych chi'n edrych gyntaf? |
| **Negeseuon achlysurol, i brofi'r dŵr** | Oeddech chi'n gwybod bod cyllid ar gael, yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg? |

Strategaeth negeseuon:

# Negeseuon craidd: Pobl uchelgeisiol

| | |
|---|---|
| **Negeseuon lefel uchaf** | Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol. |
| **Negeseuon eilaidd** | Mae llawer o gyrsiau prifysgol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.<br><br>Os ydych chi'n bwriadu byw a gweithio yng Nghymru, astudiwch drwy gyfrwng y Gymraeg/Mae astudio yn y Gymraeg yn y brifysgol ar gyfer pawb sydd eisiau byw a gweithio yng Nghymru ar unrhyw adeg yn y dyfodol. |
| **Is-negeseuon: yn seiliedig ar fuddion** | Mae cyflogwyr ledled Cymru yn chwilio am bobl sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol.<br><br>Nid rhywbeth ar gyfer yr ysgol yn unig yw'r Gymraeg; mae'r Gymraeg yn y brifysgol yn eich helpu chi i ddod o hyd i waith yn y byd go-iawn.<br><br>Mae llawer o ddiwydiannau yng Nghymru yn brin o siaradwyr Cymraeg. |
| **Negeseuon lapio** | Ydych chi'n meddwl am eich dyfodol?<br><br>Gall llwyddiant ddechrau yn y brifysgol. |
| **Negeseuon achlysurol, i brofi'r dŵr** | Oeddech chi'n gwybod bod cyllid ar gael, yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg? |

Strategaeth negeseuon:

# Negeseuon craidd: Dilynwyr y Dorf

| | |
|---|---|
| **Negeseuon lefel uchaf** | Rydyn ni yma i'ch cefnogi chi ar eich taith i'r brifysgol. |
| **Negeseuon eilaidd** | Mae llawer o gyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.<br>Mae llawer o bobl sy'n bwriadu byw a gweithio yng Nghymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Is-negeseuon: yn seiliedig ar fuddion** | Gall astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol fod yn ffordd gyflym o wneud ffrindiau newydd.<br>Os oeddech chi'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol, bydd yn hawdd i chi barhau i wneud hynny yn y brifysgol.<br>Mae myfyrwyr ar hyd a lled Cymru yn dilyn cyrsiau prifysgol yn Gymraeg. |
| **Negeseuon lapio** | Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddewis poblogaidd i bawb. |
| **Negeseuon achlysurol, i brofi'r dŵr** | Oeddech chi'n gwybod bod cyllid ar gael, yn benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg? |

# CANLLAWIAU TÔN LLAIS

## Crëwyd Llais y Gymraeg gan dîm Cymraeg 2050 yn Llywodraeth Cymru gan gydweithio â phartneriaid ledled Cymru a thu hwnt

Mae'n ganllaw defnyddiol i gael y naws yn iawn pan fyddwch chi'n cynhyrchu cynnwys am siarad (neu ddysgu, yn yr achos hwn) yn Gymraeg.

Daw'r tudalennau canlynol o grynodeb o Llais y Gymraeg, y gellir ei ddarparu'n llawn fel dogfen ar wahân.

*Arbrofwch gydag AI i ail-ysgrifennu'r testun gan ddefnyddio canllawiau Llais y Gymraeg.*

### Canllawiau tôn llais:

# Egwyddorion llais y gymraeg

**Nodweddion canolog y Llais:**

- Byddwch yn gyfeillgar
- Byddwch yn gynhwysol
- Byddwch yn glir
- Byddwch yn syml
- Byddwch yn bositif
- Gwnewch yr iaith yn fwy gweithredol
- Mae modd bod yn anffurfiol wrth sôn am faterion difrifol
- Byddwch yn gryno.

**Y deg awgrym gorau:**

1. Meddyliwch pwy sy'n darllen. A oes ffordd symlach a gwell o'i fynegi?
2. Defnyddiwch fwy o ferfau nag enwau —a chofiwch gadw'ch berfau'n syml.
3. Darllenwch y neges! Byddwch chi'n synnu faint fyddwch chi'n ei newid dim ond trwy gymryd yr amser i ddarllen eich gwaith yn drwyadl.
4. Os ydych chi'n methu meddwl neu'n chwilio am ysbrydoliaeth, cymerwch seibiant o'r sgrin. Mae wir yn helpu.
5. Ysgrifennu copi yn y Gymraeg a'r Saesneg? Mae'n syniad da i drin y ddwy iaith fel copi gwreiddiol yn hytrach na chyfieithu o un i'r llall.
6. Os ydych chi'n ysgrifennu araith neu gyflwyniad, darllenwch ef yn uchel dim ond i gael profi naws eich geiriau.
7. Rydyn ni bob amser yn defnyddio geiriau fel 'ein', 'perthyn', 'gyda'n gilydd', 'dim ond', 'mwy' ac 'ymuno', felly cofiwch fod yn gynhwysol.
8. Mae defnyddio geiriau fel 'nawr' a 'heddiw' yn ffordd dda o dynnu sylw pobl a'u hannog i gymryd rhan ac ymuno.
9. Dechreuwch eich pwyntiau a'ch brawddegau mewn ffordd bositif—fe gewch chi ymateb llawer gwell.
10. A chofiwch, mae angen bod yn gynnes, yn gyfeillgar, yn gynhwysol ac yn gyson bob amser.

**Canllawiau tôn llais:**

# Y cyfryngau cymdeithasol

## Dyma nodyn i'ch atgoffa o'n pedwar prif beth Cymraeg i'w cadw mewn cof wrth i chi lunio copi:

- Cynnes
- Cynhwysol
- Cyfeillgar
- Cyson.

**Enghraifft:**
Mae Sarah yn awyddus i ddysgu Cymraeg, felly mae hi wedi postio neges ar y cyfryngau cymdeithasol i weld pwy all ei helpu:

| Cynt | Ar ôl |
|---|---|
| Annwyl Sarah,<br><br>Os hoffech chi siarad Cymraeg, mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn ddefnyddiol. Rhowch wybod i ni os hoffech chi i ni awgrymu ffyrdd o fynd ati fel bod modd i chi ddechrau eich siwrne hir. | Hei Sarah!<br><br>Newyddion gwych! Croeso i'n teulu siarad Cymraeg.<br><br>Mae @Duolingo ynghyd â @ DailyWelshWords yn le da i gychwyn.<br><br>Bydd siarad ychydig o eiriau #Cymraeg yn dy helpu i ddod o hyd i dy lais yn gyflym.<br><br>Gall @CymryManceinion dy helpu i ddod o hyd i gwrs heddiw.<br><br>Cer amdani. Pob lwc Sarah! |

# RÔL Y COLEG CYMRAEG

**Mae llawer yn cysylltu'r Coleg â datblygu cyrsiau ac adnoddau Cymraeg, gweithio gydag ysgolion a phrifysgolion, trefnu digwyddiadau cymdeithasol, hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a llawer mwy.**

Fodd bynnag, i lawer o fyfyrwyr ysgol, mae'r Coleg yn golygu un peth: YSGOLORIAETHAU.

Mae cymhellion ariannol, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran hwn, yn sicr yn bwysig. Bydd rhai (yn enwedig o fewn adran 'Y Darbwylladwy' yn ein Cromlin Mabwysiadu) sydd angen cymhelliant anghynhenid i'w gwthio i'r ochr arall

Fodd bynnag, i lawer o rai eraill yn ein segmentau cynulleidfa, efallai nad yw arwain gyda chymhellion ariannol yn cael yr effaith a ddymunir. O bosibl, gallai leihau eu cymhelliant cynhenid i astudio yn y Gymraeg ac arwain at amheuaeth.

**Felly, beth all y Coleg ei gynnig neu ei hyrwyddo i fyfyrwyr ysgol, y tu hwnt i ysgoloriaethau?**

Rôl y coleg cymraeg:

# Archdeipiau brand

## Mae archwilio gwahanol archdeipiau brand yn rhoi fframwaith inni ar gyfer meddwl am yr hyn y gall y Coleg ei gynnig i fyfyrwyr, y tu hwnt i ysgoloriaethau:

Llwybr diddorol a pherthnasol i'r Coleg fyddai fframio popeth drwy'r lens o fod yn rhoddwr gofal ac yn berson doeth neu'n ffigur doethineb i fyfyrwyr.

**Mae rhoddwyr gofal yn darparu gwasanaeth i'w cynulleidfa.**
maen nhw'n ofalgar, yn gynnes ac yn cynnig tawelwch meddwl.

**Mae pobl doeth yn darparu gwybodaeth i'w cynulleidfa.**
maen nhw'n wybodus, yn hyderus ac yn cynnig arweiniad.



**Rôl y coleg cymraeg:**

# Archdeipiau brand

Mae cwmnïau eraill yn chwarae rôl person doeth a'r rhoddwr gofal gyda'i gilydd yn llwyddiannus.

Trwy fwydo cyfathrebiadau drwy lens person doeth a rhoddwr gofal, bydd rôl y Coleg i fyfyrwyr yn cael ei chyfleu mewn modd clir ac ystyrlon.

Dove

Mae Dove yn addysgu defnyddwyr am bositifrwydd y corff a hunanofal (person doeth) a hefyd yn cefnogi hunanbarch a lles (rhoddwr gofal).

duolingo

Mae'n addysgu defnyddwyr trwy roi cyfle i ddysgu iaith (person doeth) ac yn meithrin twf personol, yn aml gyda thôn sy'n meithrin ac yn annog (rhoddwr gofal).

headspace

Mae'n darparu offer ymwybyddiaeth ofalgar a myfyrio (person doeth) gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles (rhoddwr gofal).

Rôl y coleg cymraeg:

# Archdeipiau brand

## Dyma enghraifft o sut i gyfathrebu â'r gynulleidfa darged yn y rôl o berson doeth a rhoddwr gofal:

Os ydych chi'n pendroni a ddylech chi roi prifysgol yng Nghymru ar eich ffurflen UCAS, edrychwch ar ein canllaw i fywyd myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru.

Os ydych chi'n ystyried gweithio yng Nghymru ar ôl gorffen yn y brifysgol, gwyliwch ein cyfres o gyfweliadau gyda chyflogwyr gorau Cymru i ddysgu rhagor am yr hyn maen nhw'n chwilio amdano.

Os nad ydych chi erioed wedi gweld amserlen prifysgol, mae gennym ychydig o samplau i'w dangos i chi yma.

Os ydych chi'n bwriadu astudio Meddygaeth yn y brifysgol, rydyn ni wedi creu rhaglen yn arbennig i chi.

Trwy geisio gofalu am fyfyrwyr a dod yn ganolfan wybodaeth, gall y Coleg weithredu fel man cyswllt allweddol.

Mae hyn yn caniatáu i'r Coleg ddarparu gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg, hyd yn oed os nad dyma'r neges flaenllaw.

# SIANELI ALLWEDDOL A NEGESWYR

**Sianeli allweddol a negeswyr:**

# Negeseuon allweddol

**Mae'r Coleg eisoes yn defnyddio ystod eang o bobl er mwyn cyfleu negeseuon gwahanol. Mae ein gwaith yn awgrymu mai'r rhai sy'n cael eu hystyried yn arbennig o agos at y mater dan sylw y mae pobl yn eu ffafrio yn aml. Gallai hyn gynnwys:**

- Arwyr lleol: Myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr sy'n dychwelyd i'w dref enedigol/ysgol er mwyn adrodd ei stori
- Pobl sy'n rhan o'r system: penaethiaid blynyddoedd 12 a 13, athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd sy'n deall sut beth yw bod mewn prifysgol yng Nghymru
- Arweinwyr ysbrydoledig: darlithwyr prifysgol sy'n creu cyffro ynghylch mynd i'r brifysgol.

Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi gweld 'pobl fel fi' yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfathrebiadau, gan bwysleisio'r angen am grŵp amrywiol o gynrychiolwyr sy'n mynd y tu hwnt i'r stereoteip.

**Sianeli allweddol a negeswyr:**

# Sianeli allweddol

**Mae myfyrwyr eisoes ar daith o chwilio am wybodaeth a'n rôl ni yw eu cefnogi ar y ffordd.**

**Mae cyfathrebiadau sy'n teimlo'n fwy personol yn arbennig o effeithiol:**

- Sgyrsiau â chynghorwyr gyrfaoedd a ffynonellau dibynadwy
- Ymweliadau ag ysgolion gan y Coleg
- Tystiolaeth ar-lein ac yn y cnawd gan gyn-fyfyrwyr
- Ffrydio byw a fideos ar y cyfryngau cymdeithasol yn ateb cwestiynau allweddol
- Pyrth lle gall myfyrwyr dderbyn cymorth yn uniongyrchol e.e., Doctoriaid Yfory
- Cyfathrebiadau wedi'u teilwra ar draws sianeli, e.e., gan gyfreithiwr i ddarpar fyfyriwr yn y gyfraith.

Y peth pwysicaf yw cwrdd â myfyrwyr yn eu lleoliad nhw (yr ysgol, y cyfryngau cymdeithasol perthnasol, chwilio'r rhyngrwyd), heb ychwanegu gwrthdaro ychwanegol na chyfrannu at orlwytho pobl â gwybodaeth.

# YMYRAETHAU YN Y DYFODOL

Ymyraethau yn y dyfodol:

## Ymyraethau posibl

# Egwyddorion craidd ar gyfer ymyraethau newydd

1. Parchu safbwyntiau, barn a dewisiadau pobl ifanc yn eu harddegau – peidio â phregethu
2. Tarfu ar y daith bresennol – peidio â cheisio creu o'r newydd
3. Creu gofod ar gyfer ystyried
4. Dod o hyd i'r bobl gywir i gyfleu negeseuon a rhoi cefnogaeth dda iddyn nhw
5. Mae ysgoloriaethau yn gymorth, nid yn rhywbeth i'w drin fel prif bennawd
6. Dylid profi ac adolygu unrhyw gynnwys newydd bob amser.

Ymyraethau yn y dyfodol:

# Ymyraethau posibl: Y gofidiwr

| | Y syniad yn gryno | Sianeli a Thactegau | Pa rwystrau rydyn ni'n mynd i'r afael â nhw? |
|---|---|---|---|
| **Y tymor byr** | Pecyn 'Paratoi ar gyfer y Brifysgol' sy'n cynnwys amserlen enghreifftiol, delweddau o ddosbarthiadau bach, storïau gan fyfyrwyr, cwestiynau cyffredin ayb. | • Gwefan y Coleg<br>• Y cyfryngau cymdeithasol (y Coleg yn talu i hysbysebu)<br>• PPC (talu fesul clic (pay per click))<br>• Ysgolion. | • Diffyg dealltwriaeth<br>• Ansicrwydd. |
| **Y tymor canolig** | Templed safonol ar y we ac fel un dudalen i'w hargraffu er mwyn i brifysgolion allu cyflwyno gwybodaeth gryno am eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | • Gwefannau'r prifysgolion<br>• Llythyron/e-byst y prifysgolion yn cynnig lle<br>• Ysgolion/cynghorwyr gyrfa. | • Gorlwytho â gwybodaeth<br>• Diffyg ymwybyddiaeth<br>• Ansicrwydd. |
| **Y tymor hir** | Cyfres 'Darlithydd prifysgol yn ateb eich cwestiynau', a allai hefyd fod ar gael trwy ffrydio byw.<br><br>Gweler cyfres 'WIRED Tech Support' am ysbrydoliaeth. | • Y cyfryngau cymdeithasol (talu amdanyn nhw)<br>• Gwefan y Coleg<br>• Gwefannau'r prifysgolion. | • Diffyg ymwybyddiaeth<br>• Diffyg dealltwriaeth<br>• Ansicrwydd<br>• Dulliau amhersonol. |

Byddem yn argymell defnyddio'r fframweithiau yn yr adran 'Offer Defnyddiol' i gynllunio a gwerthuso unrhyw ymyrraeth newydd.

**Ymyraethau yn y dyfodol:**

# Ymyraethau posibl: Y person uchelgeisiol

| | Y syniad yn gryno | Sianeli a Thactegau | Pa rwystrau ydyn ni'n mynd i'r afael â nhw? |
|---|---|---|---|
| **Y tymor byr** | Ymgyrch yn tynnu sylw at ffeithiau empirig, e.e., mae bron i 3 o bob 4 cyflogwr yn gofyn am sgiliau iaith yn y Gymraeg wrth recriwtio (Gyrfa Cymru); rhestr o ddiwydiannau lle y mae'r Gymraeg yn bwysig. | • Y cyfryngau cymdeithasol (y Coleg yn talu am hysbysebu)<br>• Hysbysebion digidol (UCAS)<br>• Posteri (ysgolion, diwrnodau agored). | • Chwalu'r mythau<br>• Diffyg ymwybyddiaeth<br>• Mae'r Gymraeg yn rhywbeth ar gyfer yr ysgol, nid y byd go-iawn. |
| **Y tymor canolig** | Cyfres o gyfweliadau â gweithwyr proffesiynol uchel eu statws yng Nghymru yn siarad am yr hyn y maen nhw'n chwilio amdano mewn graddedigion newydd, 'wedi'u grymuso gan y Coleg'. | • Y cyfryngau cymdeithasol (y Coleg yn talu am hysbysebu)<br>• Gwefan y Coleg<br>• Ymweliadau ag ysgolion (fideos, posteri, cyfweliadau byw). | • Mae'r Gymraeg yn rhywbeth ar gyfer yr ysgol, nid y byd go-iawn. |
| **Y tymor hir** | Dyfrnodau neu sêl bendith ffurfiol y gall prifysgolion eu cynnig i fyfyrwyr sy'n gwneud rhannau penodol o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg, i'w rhannu â chyflogwyr yn y dyfodol. | • Trawsgrifiadau prifysgol<br>• Tystysgrifau | • Polisïau sefydliadol sy'n ffafrio'r Saesneg<br>• 'Dim angen. Dwi'n medru'r Gymraeg yn barod'<br>• Mae'r Gymraeg yn rhywbeth ar gyfer yr ysgol, nid y byd go-iawn. |

Byddem yn argymell defnyddio'r fframweithiau yn yr adran 'Offer Defnyddiol' i gynllunio a gwerthuso unrhyw ymyrraeth newydd.

Ymyraethau yn y dyfodol:

# Ymyraethau posibl: Dilynwr y Dorf

| | Syniad yn gryno | Sianeli a Thactegau | Pa rwystrau ydyn ni'n mynd i'r afael â nhw? |
|---|---|---|---|
| **Y tymor byr** | Fel y dangosir yn ein Cromlin Mabwysiadu, nid ydym yn argymell ymyraethau tymor byr penodol ar gyfer y grŵp hwn. | Amh. | Amh. |
| **Y tymor canolig** | Cyfle i fyfyrwyr eistedd i lawr (yn y cnawd neu'n rhithwir) gyda myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr prifysgol nad ydyn nhw'n ffitio'r stereoteip, gyda'r sesiwn wedi'i hwyluso gan y Coleg. | • Ymweliadau ag ysgolion (gorau oll os oes myfyriwr prifysgol sy'n gyn-ddisgybl yn yr ysgol)<br>• Google Hangouts<br>• Diwrnodau agored prifysgolion. | • Dulliau amhersonol<br>• 'Dyw'r Gymraeg ddim yn "cŵl"/Dwi ddim eisiau bod yn wahanol i bawb arall'<br>• Norm cymdeithasol: Pwy sy'n astudio yn y Gymraeg? |
| **Y tymor hir** | Newid yn holl gyfathrebiadau'r Coleg i arddangos y genhedlaeth newydd o fyfyrwyr (nad ydyn nhw'n ffitio'r stereoteip) sy'n astudio drwy'r Gymraeg, gan bwysleisio manteision, e.e. ymdeimlad o berthyn. | • Y cyfryngau cymdeithasol (y Coleg yn talu am hysbebu)<br>• Pob deunydd print a digidol. | • Chwalu'r mythau<br>• 'Dyw'r Gymraeg ddim yn 'cŵl'/Dwi ddim eisiau bod yn wahanol i bawb arall'<br>• Norm cymdeithasol: Pwy sy'n astudio drwy'r Gymraeg? |

Byddem yn argymell defnyddio'r fframweithiau yn yr adran 'Offer Defnyddiol' i gynllunio a gwerthuso unrhyw ymyrraeth newydd.

### Ymyraethau yn y dyfodol:

# Rhestr wirio ar gyfer ymyraethau newydd

- Ydyn ni'n siarad â segment o'n cynulleidfa darged, yn hytrach na phobl nad oes angen ymyrraeth arnyn nhw?
- Ydyn ni'n ffitio i mewn i daith sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na chreu un newydd?
- Ydyn ni'n ymwybodol o'r prif yrwyr a'r prif rwystrau i'r gynulleidfa?
- Ydyn ni'n defnyddio pobl nad ydyn nhw'n rhan o'r stereoteip i gyfleu'r negeseuon?
- Ydyn ni wedi gwirio ein tôn llais (yn erbyn Llais y Gymraeg)?
- Ydyn ni'n gweithredu fel rhoddwr gofal?
- Ydyn ni'n gweithredu fel ffynhonnell o wybodaeth ddefnyddiol?
- Ydyn ni'n dethol ein negeseuon allweddol, yn hytrach na dim ond trosglwyddo rhestr o fuddion?
- Ydyn ni'n dangos yn glir sut y byddwn ni'n mesur y canlyniadau diraethol a'r allbynnau?

# OFFER DEFNYDDIOL AR GYFER YMYRAETHAU YN Y DYFODOL

**Offer defnyddiol ar gyfer ymyraethau yn y dyfodol:**

# Offer defnyddiol: Oasis

## Datblygwyd fframwaith OASIS gan Lywodraeth y DU. Fe'i defnyddir ar gyfer cynllunio ymgyrchoedd ac mae'n sicrhau y ceir cyfathrebiadau effeithiol, effeithlon, a'u bod yn cael eu gwerthuso'n gyson:


**Amcanion:**
beth ydyn ni'n ceisio ei gyflawni? Beth yw'r ymddygiad ydyn ni'n ceisio ei newid?

**Dealltwriaeth o'r gynulleidfa:**
pa un o'n segmentau ydyn ni'n siarad â nhw? Beth yw'r gyrwyr a'r rhwystrau ar gyfer y segment hwn?

**Strategaeth/Syniad:**
beth yw taith ein cynulleidfa a ble allwn ni ymyrryd?

**Gweithredu:**
sut fyddwn ni'n cyflawni'r strategaeth? Pa dactegau fyddwn ni'n eu defnyddio?

**Sgorio/Gwerthuso:**
beth yw ein hallbynnau (asedau ac adnoddau), mesurau diriaethol y gwaith (metrigau allweddol) a'r canlyniadau (newidiadau ac effaith)?



**Offer defnyddiol ar gyfer ymyraethau yn y dyfodol:**

# Offer defnyddiol: APEASE


**Mae APEASE yn ffordd o werthuso ymyraethau newid ymddygiad. Gall hefyd eich helpu i gymharu gwahanol ymyraethau. Mae pob llythyren yn sefyll am fesur gwahanol o werthusiad:**

| | |
|---|---|
| **Derbynioldeb (Acceptability):** → | pa mor dderbyniol yw'r ymyrraeth hon i randdeiliaid? |
| **Ymarferoldeb (Practicability):** → | oes modd ei weithredu gyda'r adnoddau sydd ar gael? |
| **Effeithiolrwydd (Effectiveness):** → | pa mor effeithiol yw'r dull hwn o gyrraedd y nod a fwriadwyd? |
| **Fforddiadwyedd (Affordability):** → | a fydd y dull gweithredu yn cyrraedd yr holl bobl a fwriedir o fewn y gyllideb? |
| **Sgil effeithiau (Side effects):** → | a allai'r ymyrraeth hon arwain at ganlyniadau negyddol? |
| **Ecwiti (Equity):** → | a fydd y dull hwn yn cynyddu neu'n lleihau gwahaniaethau rhwng grwpiau breintiedig a difreintiedig? |

**Offer defnyddiol ar gyfer ymyraethau yn y dyfodol:**

# Cylch Gwerthuso GCS

**Datblygwyd y Cylch Gwerthuso GCS gan Lywodraeth y DU. Fe'i defnyddir i gefnogi proses casglu tystiolaeth gadarn wrth werthuso ymgyrchoedd neu ymyraethau:**



# ATODIAD

**Atodiad 1:**

# Dogfennau a ddarparwyd gan y Coleg Cymraeg

| Teitl y Ddogfen | Awdur |
|---|---|
| Manyleb swydd. Swyddog Prosiect: Mapio a Datblygu Sgiliau Iaith | Coleg Cymraeg |
| Prosiect ymchwil i archwilio dulliau addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Coleg Cymraeg |
| Cynllun Academaidd (Addysg Uwch) 2022 Crynodeb Gweithredol | Coleg Cymraeg |
| Cofrestru Diofyn | Coleg Cymraeg |
| Ffurflenni adborth a ddefnyddir ar gyfer ymweliadau ysgol | Coleg Cymraeg |
| Canllawiau i'r rhai sy'n cael eu mentora (Doctoriaid Yfory) | Coleg Cymraeg |
| Canllawiau i fentoriaid (Doctoriaid Yfory) | Coleg Cymraeg |
| Prifysgol Aberystwyth: Manyleb swydd Swyddog Prosiect | Coleg Cymraeg |
| Aberystwyth University: Project Officer job spec | Coleg Cymraeg |
| Prosiect Animateurs Iaith | Coleg Cymraeg |
| Mae Gen Ti Fantais 2024 | Coleg Cymraeg |
| Cyflwyniad ysgol y Coleg Cymraeg | Coleg Cymraeg |
| Pamffled i rieni/gwarchodwyr | Coleg Cymraeg |
| Taflen ysgoloriaethau | Coleg Cymraeg |
| Prosiect adnoddau addysg a hyfforddiant ar sail efelychiadau | Coleg Cymraeg |

**Atodiad 1 parhad:**

# Dogfennau a ddarparwyd gan y Coleg Cymraeg

| Document title | Author |
|---|---|
| Ymchwil ar agweddau myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru at addysg uwch cyfrwng Cymraeg (Mai 2023) | OB3 |
| Ymchwil ar agweddau myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru at addysg uwch cyfrwng Cymraeg (Medi 2023) | OB3 |
| Astudiaeth dichonolrwydd Biowyddorau a Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe (Tachwedd 2017) | OB3 |
| Astudiaeth ddichonoldeb: Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Caerdydd (2018) | OB3 |
| Astudiaeth ddichonoldeb: Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Prifysgol De Cymru (2018) | OB3 |
| Argymhellion ar gyfer cynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgolion uwchradd sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarparu gwybodaeth am y cyfleoedd a gynigir trwy gyrsiau addysg uwch y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Ionawr 2016) | Geraint Roberts, Ymgynghorydd Addysg |
| Report on the Attitude and Perceptions of Pupils from Black, Asian and Minority Ethnic Backgrounds to the Coleg Cymraeg Cenedlaethol's Offer for Welsh speakers, Learners and Apprentices (Ionawr 2022) | Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ifanc Cymru |
| University Ready Research (Mai - Mehefin 2024) | Family Kids & Youth |
| The relationship between the Welsh language and higher education participation and experience (2023) | PhD o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd |
| Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr (2023) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD (2012-2022) | Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru WISERD |
| Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2021/22 | Ystadegau ar gyfer Cymru |
| Profiadau Myfyrwyr o'r Gymraeg mewn Addysg Uwch: Adroddiad Ardrawiad Iaith | Prifysgol Aberystwyth |
| Ymchwil Ymysg Darpar Fyfyrwyr Parthed y Ffactorau sy'n Effeithio ar Ddewis Cwrs Prifysgol ac Effaith Cyfrwng y Cwrs hwnnw ar y Penderfyniad (2009) | Wavehill Consulting |
| Dewisiadau Dysgwyr: Cynyddu'r niferoedd sy'n astudio trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn Addysg Bellach (2019) | Laura-Beth Davies, PhD |
| Polisi Iaith Ymddygiadol? (2017) | Osian Elias, PhD |

Atodiad 2:

# Dyfyniadau Academaidd


- Blakemore, S.-J. (2012) 'Decision-making in the adolescent brain', Nature Neuroscience
- Bottesi, G., Iannattone, S., Carraro, E., Lauriola, M. (2023) 'The assessment of Intolerance of Uncertainty in youth: an examination of the Intolerance of Uncertainty Scale-Revised in Italian nonclinical boys and girls', European Child & Adolescent Psychiatry
- BrainFacts (2023) 'Teens Can Have Excellent Executive Function—Just Not All the Time', BrainFacts.org
- Buote, V.M., Pancer, S.M., Pratt, M.W., Adams, G., Birnie-Lefcovitch, S. & Polivy, J. (2007) 'The Importance of Friends: Friendship and Adjustment among 1st-Year University Students', Journal of Adolescence
- Chambers, E. & Gopaul, B. (2020) 'Understanding the Influence of Social and Cultural Capital on College Choice', Journal of Higher Education Studies
- Dugas, M.J., Laugesen, N. & Bukowski, W.M. (2012) 'Intolerance of Uncertainty, Fear of Anxiety, and Adolescent Worry', Journal of Abnormal Child Psychology
- Hofmann, W., Schmeichel, B.J., & Baddeley, A.D. (2012) 'Executive functions and self-regulation', Trends in Cognitive Sciences
- Jackson, M. (2013) 'How far merit selection? Social stratification and the labour market', Journal of Social Issues
- Peters, J. & Büchel, C. (2009) 'Overlapping and distinct neural systems code for subjective value during intertemporal and risky decision making', Frontiers in Behavioral Neuroscience
- Sá, C.M., Florax, R.J.G.M. & Rietveld, P. (2012) 'Does Accessibility to Higher Education Matter? Choice Behaviour of High School Graduates in The Netherlands', Regional Studies
- Sivertsen, B., O'Connor, R.C., Nilsen, S.A., Heradstveit, O., Askeland, K.G., Bøe, T. & Hysing, M. (2023) 'Mental health problems and suicidal behavior from adolescence to young adulthood in college: linking two population-based studies', BMC Psychiatry
- Smith, J. & Warburton, W. (2012) 'Peer Pressure and Academic Decision-Making', Journal of Educational Psychology
- Stevens, A.H. & Kurlaender, M. (2014) 'The Effect of Peer Academic Reputation on College Major Choice', Journal of Economic Behavior & Organization

**Ymddygiad a threfniadaeth**

- Tobolowsky, B.F. & Lowery-Hart, R. (2021) 'Examining the transition from high school to higher education during COVID-19', Higher Education
- Ye, H., Chen, C., Chen, S., Jiang, N., Cai, Z., Liu, Y. & Fan, F. (2023) 'Profiles of intolerance of uncertainty among 108,540 adolescents: Associations with sociodemographic variables and mental health', Child Psychiatry & Human Development